# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd 29 Mawrth 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes ac R Meirion Jones. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 6 yn unig);<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Adnoddau Dynol (NH),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Llinos Medi Huws ac A M Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd R Meirion Jones ddatgan diddordeb personol gan ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr, yn dilyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddo gymryd rhan yn y cyfarfod.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 2022 yn gywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

**Dirprwy Brif Weithredwr**

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid a'r Rheolwr Adnoddau Dynol, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ar 4 Mawrth 2022, y lluniwyd rhestr fer ac yn dilyn hynny cynhaliwyd proses recriwtio pum cam gyda chytundeb y Pwyllgor Penodiadau fel â ganlyn:-

- Prawf seicometrig a chyfweliad dilynol
- Asesiad MTQ48 mewn perthynas â chadernid a gwytnwch meddyliol;

- Asesiad sefyllfa yn profi dyfnder a manylder gwybodaeth mewn perthynas â'r swydd;
- Cyfweliad proffesiynol gyda'r Prif Weithredwr, cyn Brif Weithredwr Cyngor Ceredigion a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid;
- Cyfweliad ffurfiol gyda'r Pwyllgor Penodiadau.

Yn dilyn y cyfweliad ffurfiol, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor Penodiadau**:-**

- **benodi Mr Rhys Howard Hughes i'r swydd Dirprwy Brif Weithredwr;**
- **y dylai'r Adran Adnoddau Dynol hysbysebu'r swydd Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc gan ddilyn y broses arferol ar gyfer hysbysebu Uwch Swyddi am gyfnod o 3 wythnos.**

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**6 PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - DROS DRO**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid mewn perthynas â'r trefniadau dros dro o ran y swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Diwygio rôl y Dirprwy Brif Weithredwr dros dro i gynnwys swyddogaethau statudol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2021 a Mesurau Llywodraethiant Cymru 2021 ond yn amodol ar yr amod, tra'n gweithredu swyddogaethau statudol y rôl hon, nad oes modd iddo weithredu'r pwerau sydd wedi eu dirprwyo i, na gweithredu fel, y Prif Weithredwr yn unol â pharagraff 3.5.3.2.10 o'r Cyfansoddiad;**
- **Bod swydd dros dro Rheolwr Busnes Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei chreu ac yn cael ei hysbysebu yn unol â'r prosesau AD arferol, er mwyn rheoli a darparu cefnogaeth i weddill yr uned gwasanaethau democrataidd bresennol;**
- **Bod adroddiad gwerthuso opsiynau i ddilyn yn cynnwys manylion am ddyfodol y cyfrifoldeb democrataidd statudol a strwythur yr uned ddemocrataidd bresennol.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**